

**Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 30 Tachwedd
2012**

Answers to the Written Assembly Questions for answer on 30 November 2012

*Cyhoeddir atebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o atebion yn y Gymraeg.
Answers are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant/signifies that the Member has declared an interest.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg/signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys
Contents**

- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

***Gofyn i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
To ask the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science***

Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): Yn dilyn yr ateb i WAQ61588, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau ar ba ddyddiad y cafodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad gan Arsyllfa Wledig Cymru. (WAQ61688)

Antoinette Sandbach (North Wales): Further to the answer to WAQ61588, will the Minister confirm on what date the Welsh Government received the report from the Wales Rural Observatory. (WAQ61688)

***Derbyniwyd ateb i'w gyhoeddi ar 04 Rhagfyr 2012
Answer received for publication on 04 December 2012***

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): The report was delivered by WRO on 14th March 2012.

***Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
To ask the Minister for Education and Skills***

Alun Ffred Jones (Arfon): Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ61596, a fydd y gofynion cymwysterau yn Gymraeg yr un fath â'r Saesneg, ac os na, pam y gwahaniaeth. (WAQ61689) W

Alun Ffred Jones (Arfon): Following the Minister's response to WAQ61596, will the qualification requirements be the same in Welsh and English, and if not, why the difference. (WAQ61689) W

***Derbyniwyd ateb i'w gyhoeddi ar 03 Rhagfyr 2012
Answer received for publication on 03 December 2012***

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Yn y gorffennol, nid yw'r Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon wedi cynnwys safon mynediad gofynnol statudol ar gyfer cymhwyster yn y Gymraeg.

Roedd ymgynghoriad ar ofynion mynediad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn 2006 yn cynnwys cynnig penodol i gyflwyno gofyniad iaith Gymraeg ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Yr adeg honno, cytunodd rhanddeiliaid â'r cynnig mewn egwyddor, ond teimlwyd y byddai anawsterau ymarferol yn codi wrth fabwysiadu'r dull hwn. Ystyriwyd y byddai cyfeirio at safon TGAU Cymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn y rheini a oedd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith neu'r rheini a oedd wedi ymgymryd â dysgu pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegwyd pryderon hefyd y gallai gofyniad mynediad penodol i'r Gymraeg fod yn rhwystr cyn cael mynediad at gwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg a fyddai'n atal hyfforddeion rhag cael y cyfle i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wedi iddynt ddechrau ar y cwrs. Er enghraifft, gallai hyfforddeion sy'n dechrau ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg uwchradd fod yn gymwys i gymryd rhan yn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Cynllun yw hwnnw ar gyfer hyfforddeion sydd angen cymorth ychwanegol i wella eu sgiliau ieithyddol ac i feithrin hyder i fynd ymlaen i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai gofyniad mynediad penodol i'r Gymraeg ar lefel TGAU yn cael ei gyflwyno, gallai'r unigolion hynny ddewis peidio ag ymuno â'r proffesiwn addysgu.

Am y rhesymau hyn, yn ogystal â'r anawsterau o ran cadarnhau beth yw cwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg, nid oedd yr ymgynghoriad diweddar ar gynigion i newid lleiafswm y gofynion mynediad statudol yn cynnwys cynnig i gynnwys gofynion mynediad penodol i'r Gymraeg.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): The Requirements for the Provision of Initial Teacher Training (ITT) Courses have not historically included a statutory minimum entry standard for a qualification in Welsh.

A consultation on the ITT entry requirements in 2006 included a specific proposal to introduce a Welsh language requirement for Welsh medium courses. Stakeholders at that time agreed in principle with the proposal, but felt that there would be practical difficulties in adopting this approach. It was considered that referencing a Welsh GCSE standard would discriminate against those who learned Welsh as a second language or those who had pursued further learning through the medium of Welsh.

Concerns were also raised that a Welsh-specific entry requirement might create a barrier before entry to Welsh-medium ITT which would prevent trainees from the opportunity to improve their Welsh language linguistic skills once on the course. For example, trainees commencing secondary Welsh-medium ITT courses may be eligible to participate in the Welsh Medium Improvement Scheme. This is aimed at trainees who require additional support to increase their linguistic skills and develop their confidence to go on to teach through the medium of Welsh. The inclusion of a Welsh-specific entry requirement at GCSE level may discourage these individuals from entering the teaching profession.

The recent consultation on proposals to change to the statutory minimum entry requirements did not include a proposal to incorporate Welsh-specific entry requirements for these reasons, along with the difficulties in establishing what constitutes a Welsh-medium ITT course.

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty
To ask the Minister for Finance and Leader of the House

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog nodi pa raglenni newydd a fydd yn cael eu sefydlu, neu pa raglenni presennol a fydd yn tyfu mewn maint, ar ôl taro bargaen ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru a gyhoeddwyd ar 8 Tachwedd 2012. (WAQ61690)

Kirsty Williams (Brecon and Radnorshire): Will the Minister specify what new programmes will be established, or which existing programmes will be increased in scope, following the budget deal with Plaid Cymru announced on 8 November 2012 (WAQ61690)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pryd y bydd y Gweinidog yn gallu cadarnhau (neu fel arall) y bydd £20 miliwn o arian Ewropeaidd ar gael ar gyfer y rhaglenni a gyhoeddwyd, ar ôl taro bargaen ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru a gyhoeddwyd ar 8 Tachwedd 2012. (WAQ61691)

Kirsty Williams (Brecon and Radnorshire): When will the Minister be able to confirm (or otherwise) that £20 million of European funding will be available for the programmes announced, following the budget deal with Plaid Cymru announced on 8 November 2012. (WAQ61691)

Derbyniwyd ateb i'w gyhoeddi ar 05 Rhagfyr 2012
Answer received for publication on 05 December 2012

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): As part of the Budget Agreement with Plaid Cymru, we have committed to providing an additional £20 million in each of the next two years to further enhance apprenticeship opportunities in Wales. This investment will support progression at all levels of apprenticeship. We are currently considering the exact schemes that the additional funding will support.

In addition, we have committed £10 million capital over the coming two financial years to support the creation of a science research and business facility involving Bangor and Aberystwyth Universities.

In both cases, we will seek to maximise opportunities to supplement Welsh Government resources with European funding.

I will provide Members with an update on progress when proposals for investment have been determined.